



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Y Gorlan  
Tremadog  
Porthmadog  
Gwynedd  
LL49 9RN**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2014

## Cyd-destun

Mae Ysgol y Gorlan wedi ei lleoli ym mhentref Tremadog yng Ngwynedd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal gyfagos, sef Golan, Cwmystradllyn, Penmorfa, Treflys a Phrenteg.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 oed. Derbynnir plant i'r ysgol, yn rhan amser i'r dosbarth meithrin, yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 109 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu o fewn chwe dosbarth. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol. Yn unol â pholisi'r awdurdod lleol, defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r bwriad o sicrhau bod y disgyblion yn datblygu'n gwbl ddwyieithog erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae tua thri chwarter y disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol ac ni chaiff unrhyw ddisgybl gymorth gyda Chymraeg na Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes disgybl o dan ofal yr awdurdod lleol. Mae tua 6% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r canran sirol a chanran Cymru. Mae 18% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd yn is na'r ffigwr cenedlaethol.

Mae newidiadau sylweddol wedi bod yn staffio'r ysgol ers yr arolygiad diwethaf yn 2008. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Ebrill 2014. Penodwyd y dirprwy ym Medi 2013.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol y Gorlan yn 2013-2014 yw £3,505. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,616 a'r lleiafswm yw £2,936. Mae Ysgol y Gorlan yn safle 90 o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad Ysgol y Gorlan yn dda gan fod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda;
- bron pob un yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
- rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn dda, yn dangos cwrteisi, gofal a pharch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr;
- yr ysgol yn darparu profiadau dysgu diddorol sy'n hybu cymhelliant rhan fwyaf y disgyblion;
- ansawdd yr addysgu yn dda a staff ategol yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol; a bod
- gan yr ysgol ethos cynhwysol, gofalgar lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda gan fod:

- arweinwyr yn gweithredu amcanion cadarn sy'n canolbwyntio'n dda ar godi safonau a gwella darpariaeth;
- holl aelodau'r staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm;
- dealltwriaeth gywir gan arweinwyr o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen iddynt eu gwella;
- y cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau; ac
- ystod dda o bartneriaethau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion.

## Argymhellion

- A1 Sicrhau bod cynllunio ysgol gyfan yn cynnig arweiniad clir i athrawon ar gyfer datblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm
- A2 Cysoni arferion asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith
- A3 Gwella presenoldeb
- A4 Sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau staff wedi eu diffinio'n glir

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen disgyblion Ysgol y Gorlan ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod gan y rhan fwyaf ohonynt fedrau sy'n briodol i'w hoed ac eithrio yn y Gymraeg, sydd yn newydd i tua chwarter ohonynt. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o allu uwch yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn llwyddiannus ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi ei ddysgu.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd yn y Gymraeg. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau llafar disgyblion eraill. Maent yn cyfathrebu'n naturiol ar lafar yn y Gymraeg yn gynyddol gywir a hyderus. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n gyflym. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn trafod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg gan defnyddio ystod briodol o eirfa addas wrth fynegi barn a siarad am eu gwaith yn y dosbarth. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd ac yn medru newid yn rhwydd o un iaith i'r llall yn wrth drafod eu gwaith.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn darllen yn unol â'u hoed a'u gallu gyda chywirdeb. Maent yn defnyddio ystod dda o strategaethau i ddarllen a deall testunau. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn dda wrth ddarllen ar goedd yr hyn maent wedi ei ysgrifennu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen yn gynyddol gywir a hyderus yn y Gymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn rhugl gyda mynegiant a dealltwriaeth dda yn Saesneg.

Ar draws yr ysgol, mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae bron bob un o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu mewn dull priodol ar gyfer gwahanol ddibenion yn unol â'u hoed a'u gallu. Mae'r mwyafrif yn ysgrifennu cyfres o frawddegau sy'n cyfleu ystyr gyda llawer yn sillafu ac atalnodi'n gynyddol gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu'n hyderus ar draws ystod o destunau yn y Gymraeg. Fodd bynnag, nid ydynt yn wastad yn ymestyn eu medrau ysgrifennu estynedig Saesneg ar draws y pynciau.

Ar draws yr ysgol, mae safonau rhan fwyaf y disgyblion mewn mathemateg yn dda ac maent yn defnyddio amrywiaeth briodol o ddulliau cyfrifo yn gywir. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus i ddatrys problemau mathemategol. Maent yn casglu gwybodaeth yn llwyddiannus gan drosglwyddo'r wybodaeth honno i ffurf graff.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau mathemateg rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda. Mae llawer ohonynt yn defnyddio amrywiaeth briodol o ddulliau cyfrifo yn y pen ac yn ysgrifenedig yn gywir. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn gynyddol gywir, er enghraifft wrth amcangyfrif a phwyso gwahanol wrthrychau. Mae llawer ohonynt yn gwneud defnydd priodol o ddata ar draws y cwricwlwm. Enghraifft o hyn yw'r ffordd maent yn cofnodi a chyflwyno gwybodaeth am yr hinsawdd mewn dwy wlad gyferbyniol. Er hyn, nid yw'r disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn a all effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol o'i gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i'r nesaf.

O gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad yr ysgol yn y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn y 50% uwch mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yr ysgol mewn datblygiad mathemategol wedi symud o'r 50% uwch i'r 50% is yn ystod y cyfnod. Mae perfformiad ar y deilliant uwch 6 mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a datblygiad mathemategol wedi bod yn yr 50% uwch yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf. O gymharu ag ysgolion tebyg dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn y 50% is neu'r 25% isaf. Mae perfformiad ar y lefel 5 uwch hefyd wedi amrywio. Mae perfformiad mewn Saesneg a Chymraeg wedi amrywio rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf yn ystod y cyfnod. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf.

### **Lles: Digonol**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at fyw a bwyta ac yfed yn iach. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus eu bod yn medru troi at unrhyw un am gymorth pe bai angen.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Maent yn ymdrin â phawb gyda pharch a chwarteisi. Mae'r mwyafrif yn cyfrannu eu syniadau eu hunain yn effeithiol i'r hyn byddant am ei ddysgu. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae eu medrau i wella eu dysgu eu hunain.

Dros gyfnod o dair blynedd, mae presenoldeb wedi disgyn o'r 25% uchaf i'r 50% is yn y ddwy flynedd ddiwethaf o'i gymharu â ffigyrau ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae llais y disgyblion yn cael sylw da, gyda'r ysgol yn ymateb yn dda i'w syniadau drwy'r cyngor ysgol. Mae'r aelodau yn mynegi barn, datblygu syniadau ac yn trafod yn aeddfed ac agored wrth gyfrannu at benderfyniadau sy'n ymwneud â'r ysgol.

Drwy gymryd rhan a chyfrannu at ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gref o'u hardal. Mae medrau

mentergarwch y disgyblion yn datblygu'n dda trwy weithgareddau fel prosiect 'ieir y Gorlan'.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu diddorol sy'n ymateb yn briodol i anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion. Caiff gweithgareddau dysgu eu cyfoethogi trwy weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau preswyl. Mae'r athrawon yn cynllunio gwersi'n briodol i sicrhau bod rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud defnydd da o'u medrau llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i atgyfnerthu eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn gyson yn ymestyn medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig Saesneg y disgyblion ar draws y pynciau. Nid yw athrawon y Cyfnod Sylfaen yn gwneud defnydd digon cyson o'r ardal tu allan er mwyn darparu profiadau i'r disgyblion ddatblygu eu holl fedrau dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn greiddiol yn yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn dangos balchder yn eu Cymreictod a'u hetifeddiaeth.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfoethog ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Drwy waith y 'tîm ynni', mae'r disgyblion yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o faterion fel ailgylchu ac arbed ynni ac yn helpu'r ysgol i weithredu'n gynaliadwy. Mae'r ysgol wedi cydweithio'n dda er mwyn ariannu Bwthyn y Gorlan yn Kenya fel rhan o brosiect Omwabani. Mae hyn yn hybu dealltwriaeth disgyblion o faterion byd-eang.

### **Addysgu: Da**

Ar draws yr ysgol, mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir. Mae'r holl staff yn darparu model ieithyddol da. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac maent yn defnyddio ystod o ddulliau'n fedrus i sicrhau bod y gweithgareddau dosbarth yn ymateb yn effeithiol i'r ystod eang o allu o fewn y dosbarthiadau. Maent yn defnyddio ystod addas o adnoddau, gan gynnwys offer TGCh, yn llwyddiannus i gefnogi'r dysgu. Mae'r holl athrawon yn holi'n dreiddgar er mwyn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion. Fodd bynnag, ar adegau, mae gorgyfarwyddo yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae'r oedolion yn cynnal perthynas waith gadarnhaol sy'n sicrhau ethos cynhaliol a chefnogaeth effeithiol i'r rhan fwyaf o'r disgyblion. Mae'r staff cymorth yn chwarae rôl effeithiol wrth gefnogi'r dysgu ar draws yr ysgol.

Yn y gwersi, mae'r holl athrawon yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion. Maent yn marcio eu gwaith yn gyson ac yn yr enghreifftiau gorau, rhoddir sylwadau adeiladol ar sut i wella'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r meini prawf llwyddiant. Anghyson yw'r cyfleoedd a roddir i ddisgyblion i fyfyrir ar eu gwaith eu hunain a gwaith eu



cyfoedion. O'r herwydd, nid yw rôl y disgyblion yn y broses o osod targedau a gwella eu gwaith wedi ei sefydlu'n gyson drwy'r ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion gan ddefnyddio profion safonol ac asesiadau athrawon. Mae gweithdrefnau lefelu a chymedroli gwaith y disgyblion dros amser yn sicrhau bod asesiadau athrawon yn gadarn.

Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn gwybodaeth fuddiol am gyflawniadau, a datblygiad eu plant.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae Ysgol Y Gorlan yn ysgol hapus a chynhwysol lle teimla'r disgyblion yn ddiogel. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn darparu amryw gyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd hefyd i ddisgyblion ddeall pwysigrwydd gofalu am rai llai ffodus na nhw.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth unigol da i ddisgyblion unigol ar faterion addysgol, cymdeithasol a phersonol. Mae'n cydweithio'n agos iawn ag asiantaethau allanol sy'n sicrhau bod y disgyblion yn elwa o'r cymorth perthnasol sydd ar gael ar eu cyfer.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion y disgyblion hyn yn gynnar ac yn sicrhau cefnogaeth briodol iddynt o fewn y dosbarthiadau. Gwneir defnydd buddiol o gynlluniau addysg unigol er mwyn darparu ymyrraeth sensitif ac addas. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol pan fo angen.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos hapus a chynhwysol. Mae'r holl staff yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod a pharchu amrywiaeth unigolion a chaiff pob disgybl gyfle cyfartal. Rhoddir mynediad llawn i weithgareddau'r cwricwlwm i bob disgybl. Mae'r holl staff yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn rhydd oddi wrth aflonyddwch.

Mae'r adeilad a'r safle yn cynnig amgylchedd dysgu priodol ar gyfer y disgyblion. Caiff yr holl adeilad ei gadw'n lân a'i gynnal yn addas ac mae arddangosfeydd yn creu awyrgylch dysgu liwgar a symbylus. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o'r gofod sydd ar gael o fewn yr adeilad ond nid yw'r ardal awyr agored yn cael ei defnyddio yn ddigon cyson i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ysgol ar safle braf ac mae'r disgyblion yn defnyddio'r trac rhedeg o gwmpas buarth yn rheolaidd i hybu eu ffitrwydd. Defnyddir rhan o dir yr ysgol i dyfu llysiau mewn tybiau ac mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y 'gorlan ieir'. Mae'r

gweithgareddau hyn yn annog dealltwriaeth y disgyblion o fwyta'n iach ac o ofalu am anifeiliaid yn effeithiol.

Mae adnoddau priodol ym mhob maes dysgu i hyrwyddo dysgu ac addysgu.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r arweinwyr wedi gosod amcanion cadarn ar gyfer yr ysgol sydd yn canolbwyntio'n dda ar sicrhau safonau uchel, hapusrwydd a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus a gofalgar ac mae ymdeimlad cryf o gydweithio fel tîm ymysg yr holl staff yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at gwireddu'r amcanion. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r modd y maent yn cyfrannu at nodau'r ysgol. Serch hynny, nid oes strwythur rheoli addas wedi ei sefydlu mewn ymateb i'r newidiadau staffio diweddar. O ganlyniad, nid yw rolau a chyfrifoldebau'r staff wedi eu diffinio'n glir mewn perthynas â nodau, cynlluniau a chyfrifoldebau strategol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'r modd y mae perfformiad yr ysgol yn cymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr am gryfderau'r ysgol, ei blaenoriaethau ar gyfer datblygu a chyllid yr ysgol. Mae hyn yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn talu sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol gan gynnwys dechrau cynllunio er mwyn codi safonau llythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae systemau hunanarfarnu effeithiol wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae'r broses yn gwneud defnydd da o ddata perfformiad. Mae athrawon yn cyfrannu'n effeithiol tuag ag y broses trwy arsylwi gwersi a chraffu llyfrau er mwyn creu adroddiadau cynhwysfawr am safonau cyrhaeddiad y disgyblion a'r ddarpariaeth ar eu cyfer. Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn ystyried barn y disgyblion, y llywodraethwyr a'r rhieni yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae gan yr ysgol ddealltwriaeth dda o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r gweithdrefnau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at yr adroddiad hunanarfarnu sy'n cynnig darlun cywir o'r ysgol. Fodd bynnag, mewn manau mae tueddiad i'r adroddiad fod yn rhy ddisgrifiadol ac i or-bwysleisio'r cryfderau yn hytrach na'r agweddau sydd angen eu gwella.

Mae'r athrawon a'r llywodraethwyr yn trafod holl ddeilliannau'r broses hunanarfarnu er mwyn blaenoriaethu'r anghenion gwella. Mae cyswllt clir rhwng yr hunanarfarnu a chynllun datblygu'r ysgol. Mae gan holl aelodau'r staff a'r llywodraethwyr rolau priodol yn creu, gweithredu a monitro agweddau penodol ar y cynllun datblygu. Mae arfarniad y cynllun datblygu blaenorol yn gynhwysfawr ac yn cael ei defnyddio'n dda i lywio'r cynllun presennol.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn cynnwys targedau mesuradwy ac yn clustnodi symiau penodol o gyllid i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i fonitro ac adolygu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn effeithiol er mwyn sicrhau gwelliannau pellach.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod o bartneriaethau sy'n hyrwyddo dysgu a lles y disgyblion yn effeithiol. Mae perthynas dda rhwng yr ysgol a'r rheini. Mae'r nosweithiau gwybodaeth a drefnir gan yr ysgol yn galluogi'r rhieni i chwarae rhan weithredol yn addysg eu plant. Mae cysylltiadau adeiladol gyda'r gymuned leol ac mae gwirfoddolwyr yn dod i'r ysgol yn gyson i wrando ar ddarllenwyr. Mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at safonau darllen y disgyblion.

Mae cysylltiadau da rhwng y cylch meithrin a'r ysgol. Mae'r disgyblion yn cael cyfle i ymgysgu â'r ysgol cyn iddynt gychwyn yn y dosbarth derbyn. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn ymgartrefu yn hapus yn yr ysgol.

Mae'r trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer trosglwyddo disgyblion i'r ysgol uwchradd, sydd yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag ysgolion y dalgylch. Mae'r cydweithio er mwyn rhannu cynlluniau i gefnogi disgyblion mwy abl mewn mathemateg yn datblygu'n dda.

Mae'r cydweithio llwyddiannus gydag ysgolion cynradd ac uwchradd y dalgylch, i gyd-safoni a chymedroli, yn sicrhau dilysrwydd lefelau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi staffio'n briodol a gwneir defnydd da o arbenigedd y staff i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Rhoddir cefnogaeth effeithiol i'r athrawon gan gymorthyddion dosbarth. Maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i safonau cyrhaeddiad a lles y disgyblion.

Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol yn weithredol ac mae'r staff i gyd yn elwa o hyfforddiant sy'n cael ei drefnu yn ôl anghenion unigolion a blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu yn briodol.

Mae gwariant yn cael ei gynllunio'n ofalus yn ôl blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r arweinwyr a'r llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn effeithiol.

O ystyried cyflawniadau da'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn a all effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol o'i gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i'r nesaf.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant 5 disgwylidig mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a datblygiad mathemategol wedi bod yn uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu. Mae perfformiad mewn datblygiad personol a chymdeithasol yn is na chyfartaledd ysgolion y teulu yn 2013. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg wedi bod yn y 50% uwch yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol wedi symud o'r 50% uwch i'r 50% is yn ystod y cyfnod.

Mae perfformiad ar y deilliant uwch 6 mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a datblygiad mathemategol wedi bod yn yr 50% uwch yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yr ysgol yn datblygiad personol a chymdeithasol wedi bod codi o'r 50% is i'r 50% uwch yn ystod y cyfnod hwn.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion gyrhaeddodd y lefel ddisgwylidig (lefel 4) wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yn 2013, roedd perfformiad yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg ond yn is mewn gwyddoniaeth. O gymharu ag ysgolion tebyg dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn y 50% is neu'r 25% isaf.

Yn 2013, roedd canran y disgyblion gyrhaeddodd y lefel uwch (lefel 5) yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu yn y pedwar pwnc. Dros bedair blynedd, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch mewn Saesneg a Chymraeg wedi amrywio rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf yn ystod y cyfnod. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf.

Oherwydd bod carfanau blwyddyn yn fach yn yr ysgol, nid yw'n bosibl dod i farn ystyrlon ar gyflawniad grwpiau o ddisgyblion.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

### Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	44	44 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	44	40 91%	4 9%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	45	44 98%	1 2%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	46	42 91%	4 9%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	46	44 96%	2 4%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	46	45 98%	1 2%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	47	46 98%	1 2%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	47	46 98%	1 2%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	45	39 87%	6 13%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	47	42 89%	5 11%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	43	34 79%	9 21%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	42	24 57%	18 43%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	33	15 45%	17 52%	0 0%	0 0%	1	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	33	19 58%	14 42%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		72%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	33	23 70%	9 27%	1 3%	0 0%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	32	16 50%	14 44%	1 3%	1 3%	0	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		61%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	32	10 31%	15 47%	6 19%	0 0%	1	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		45%	46%	4%	1%		
Teaching is good.	32	16 50%	14 44%	0 0%	0 0%	2	Mae'r addysgu yn dda.
		60%	35%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	33	18 55%	14 42%	1 3%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		63%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	33	15 45%	16 48%	1 3%	0 0%	1	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		47%	40%	6%	1%		
Staff treat all children fairly and with respect.	32	15 47%	15 47%	2 6%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		58%	34%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	33	15 45%	15 45%	1 3%	0 0%	2	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		59%	36%	2%	0%		
My child is safe at school.	32	16 50%	14 44%	2 6%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	31%	1%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs.	32	12 38%	15 47%	1 3%	0 0%	4	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		50%	34%	4%	1%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	33	13 39%	19 58%	0 0%	1 3%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		49%	41%	8%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	33	16 48%	14 42%	2 6%	1 3%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	4%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	31	13 42%	15 48%	1 3%	1 3%	1	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		44%	39%	7%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	31	15 48%	14 45%	1 3%	0 0%	1	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		56%	39%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	29	11 38%	12 41%	0 0%	0 0%	6	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		42%	34%	4%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	31	15 48%	14 45%	2 6%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		53%	38%	5%	1%		
The school is well run.	31	15 48%	12 39%	3 10%	0 0%	1	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		60%	33%	3%	2%		

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

Goronwy Morris	Arolygydd Cofnodol
Rhian Jones	Arolygydd Tîm
David Jenkins	Arolygydd Lleyg
Richard Thomas	Arolygydd Cymheiriaid
Esyllt Williams	Enwebai



## Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

### Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

### **Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### **Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.